

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol a Dwyradd) – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod am y byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg o'r Cymhwyster CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn. Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- Gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - datblygu eu dealltwriaeth, eu hempoethi a'u gallu i ymateb a chyfyngu'n effeithiol
 - rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthnasoedd
 - profi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth amrywiol sy'n cynnig mewnwleddiad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach
 - tanio dychymyg a chreadigrwydd.
- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd², gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
 - datblygu'n holistaidd o ran eu dealltwriaeth a'u defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
 - cymhwyso eu dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol
 - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd
 - datblygu sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith
 - trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd gan gynnwys agweddau cymdeithasol a diwylliannol iaith.
- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygiad iaith a dewis llenyddiaeth³, gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - profi ysgogiadau perthnasol, cyffrous, dilys a heriol er mwyn ysbrydoli siarad ac ysgrifennu pwrpasol
 - profi cyfoeth o lenyddiaeth.

¹ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

² [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Egwyddorion cynnydd - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Mae'r cynnig hwn ar gyfer pedair uned i'w hastudio ar gyfer Gradd Unigol a chwe uned ar gyfer Dwyrawd. Bydd tair o'r unedau (Unedau 1, 2 a 3) yn gyffredin o ran cynnwys ond byddant yn cael eu pwysoli'n wahanol.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol)

Amlygir yr unedau cyffredin gyda *.

Uned 1: Naratif*

Arholiad Ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster (15% o'r cymhwyster dwyradd)

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 2: Hunaniaeth*

Asesu Di-arholiad

20% o'r cymhwyster (10% o'r cymhwyster dwyradd)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 3: Agweddau*

Asesu Di-arholiad

20% o'r cymhwyster (10% o'r cymhwyster dwyradd)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 4: Cysylltiadau leithyddol

Arholiad Ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan CBAC

Cymhwyster unedol fydd hwn.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyrawd)

Amlygir yr unedau cyffredin gyda *.

Uned 1: Naratif*

Arholiad Ysgrifenedig

15% o'r cymhwyster (30% o'r cymhwyster gradd unigol)

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 2: Hunaniaeth*

Asesu Di-arholiad

10% o'r cymhwyster (20% o'r cymhwyster gradd unigol)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 3: Agweddau*

Asesiad Di-arholiad

10% o'r cymhwyster (20% o'r cymhwyster gradd unigol)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 4: Cysylltiadau leithyddol

Arholiad Ysgrifenedig

22.5% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 5: Ymateb a Chreu

Asesu Di-arholiad

20% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 6: Cyfleu Ystyr
Arholiad Ysgrifenedig
22.5% o'r cymhwyster
Wedi'i farcio gan CBAC

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Bydd modd sefyll yr unedau cyffredin o fewn y gradd unigol a'r dwyradd o gyfres haf 2026 ymlaen.

Bydd unedau sydd ar wahân ar gyfer y gradd unigol/dwyradd ar gael o 2027.

Gwybodaeth am Unedau

Rhoddir cyfeiriadau at Amcanion Asesu ym mhob Uned fel syniad o'r hyn i ganolbwyntio arno. Gwneir penderfyniadau ynghylch union bwysoliadau a pha linyddau o AA sy'n cael eu targedu yn ystod y datblygiad manwl.

Uned 1 – Naratif (gradd *unigol* a *dwyradd*)

Pwrpas yr uned hon yw:

- **Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad**
- **Adnabod a gwerthfawrogi arddull yr awdur**
- **Cyflwyno ymateb personol a chreadigol i'r nofel**
- **Ysgrifennu darn ar ffurf benodol yn seiliedig ar ddeunydd darllen ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a fydd yn sail i'r ysgrifennu**
- **Ysgrifennu'n glir ac yn ddealladwy**

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- naratif.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2026. Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA2, gyda mwy o bwyslais ar AA1. Bydd y cwestiynau'n seiliedig ar astudiaethau'r dysgwyr o'r nofel a'r darnau darllen anllenyddol a ddewiswyd ganddynt. Bydd canolfannau'n dewis nofel o restr benodedig a gynhyrchir gan CBAC.

Bydd yr uned yn werth 30% o'r cymhwyster gradd unigol a 22.5% o'r cymhwyster dwyradd. Rydym yn rhagweld mai 2 awr fydd hyd yr arholiad.

Uned 2 – Hunaniaeth (gradd *unigol* a *dwyrradd*)

Pwrpas yr uned hon yw:

- Gwerthfawrogi cynnwys, themâu, plot a datblygiad cymeriad
- Adnabod a gwerthfawrogi technegau ffilm, a deialog
- Datblygu sgiliau llafaredd

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- hunaniaeth

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael o gyfres haf 2026 ymlaen. Bydd yr uned yn seiliedig ar asesu siarad a gwrando mewn ymateb i destun gweledol ac mae'n debygol o gynnwys trafodaeth grŵp. Rydym yn cynnig y bydd gan ganolfannau ryddid i ddewis ffilm neu bennod/penodau o gyfres deledu (o leiaf awr o hyd). Bydd yr uned yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Bydd yn werth 20% o'r cymhwyster gradd unigol a 10% o'r cymhwyster dwyradd. **Rhaid** cyflwyno'r uned **hon yn ddigidol**.

Uned 3 – Agweddau (gradd *unigol* a *dwyrradd*)

Pwrpas yr uned hon yw:

- Ymateb i gerddi er mwyn gwerthfawrogi eu cynnwys a'u neges/thema
- Adnabod a gwerthfawrogi ffurfiau ac arddulliau barddol
- Cyflwyno ymateb personol i'r cerddi
- Cyflwyno a dewis gwybodaeth ar gyfer cyflwyniad/podlediad unigol

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- agweddau

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael o gyfres haf 2026 ymlaen. Bydd yr uned yn seiliedig ar asesu siarad a gwrando a darllen ac ysgrifennu. Bydd amrywiaeth o dasgau gan gynnwys tasg lafaredde unigol yn seiliedig ar thema/themâu cerddi a astudiwyd a thasg ysgrifenedig yn ymateb yn feirniadol i'r cerddi a astudiwyd.

Bydd angen i ganolfannau astudio cerddi sy'n cwmpasu ystod o gyfnodau ac amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys y canu caeth (barddoniaeth mesur caeth). O fewn y cyfyngiadau hyn rydym yn rhagweld y bydd gan ganolfannau ryddid i ddewis cerddi i'w hastudio gyda'u dysgwyr.

Bydd yr uned yn targedu AA1 ac AA2. gyda mwy o bwyslais ar AA1. Bydd yn werth 20% o'r cymhwyster gradd unigol a 10% o'r cymhwyster dwyradd. **Rhaid** cyflwyno'r uned hon yn ddigidol.

Uned 4 – Cysylltiadau Ieithyddol (gradd *unigol* yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- **Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi**
- **Cyfuno a chrynhai gwybodaeth**
- **Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol)**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- cysylltiadau ieithyddol

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2027. Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA2, gyda mwy o bwyslais ar AA2. Bydd y cwestiynau'n seiliedig ar destunau llenyddol a/neu destunau anllenyddol, a bydd cyfle i ddysgwyr ysgrifennu'n ffeithiol a/neu'n greadigol.

Bydd yr uned hon yn werth 30% o'r cymhwyster. Rydym yn rhagweld mai 1 awr 30 munud fydd hyd yr arholiad.

Uned 4 – Cysylltiadau Ieithyddol (*dwyradd* yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- **Ymateb i amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig (di-dor a phytiog) a'u dadansoddi**
- **Cyfuno a chrynhai gwybodaeth**
- **Ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, ac mewn gwahanol ffurfiau (llenyddol ac anllenyddol)**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- cysylltiadau ieithyddol

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA2, gyda mwy o bwyslais ar AA2. Bydd y cwestiynau'n seiliedig ar destunau llenyddol a/neu destunau anllenyddol, a bydd cyfle i ddysgwyr ysgrifennu'n ffeithiol a/neu'n greadigol.

Bydd yr uned hon yn werth 22.5% o'r cymhwyster. Rydym yn rhagweld mai 2 awr fydd hyd yr arholiad.

Uned 5 – Ymateb a Chreu (*dwyradd yn unig*)

Pwrpas yr uned hon yw:

- Gwrando ar safbwyntiau ei gilydd ac ymateb iddynt
- Rhyngweithio ag eraill gan ofyn cwestiynau a chasglu syniadau
- Defnyddio iaith lafar ac ysgrifenedig i sicrhau eglurder, pwrpas ac effaith gyda gramadeg a mynegiant cywir
- Ysgrifennu mewn ffordd greadigol i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gan addasu tòn a ffurfiau a dewis geirfa ac arddull sy'n briodol i'r dasg

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol

- ymateb a chreu

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd yr uned yn seiliedig ar asesu siarad a gwrando a darllen ac ysgrifennu. Bydd amrywiaeth o dasgau gan gynnwys tasg lafaredd mewn grŵp yn seiliedig ar destun(au) ffeithiol a thasg ysgrifenedig greadigol yn deillio o'r testun ffeithiol. Rydym yn rhagweld y bydd gan ganolfannau ryddid i ddewis genre y dasg greadigol.

Bydd yr uned yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Bydd yn werth 20% o'r cymhwyster. **Rhaid** cyflwyno'r uned hon yn ddigidol.

Uned 6 – Cyfleu ystyr (*dwyradd yn unig*)

Pwrpas yr uned hon yw:

- Ymateb i straeon byrion er mwyn gwerthfawrogi cynnwys, themâu a chymeriadau
- Adnabod a gwerthfawrogi arddull a ffurf
- Ymateb i amrywiaeth eang o ffurfiau ysgrifenedig a'u dadansoddi
- Cyfuno a chrynhai gwybodaeth

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniad canlynol:

- cyfleu ystyr

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau yn targedu AA1 ac AA2, gyda mwy o bwyslais ar AA2. Bydd y cwestiynau'n seiliedig ar astudiaeth y dysgwyr o flodeugerdd o straeon byrion cyfoes ac ymateb i ddarn darllen nad ydynt wedi'i weld o'r blaen.

Bydd yr uned yn werth 22.5% o'r cymhwyster. Rydym yn rhagweld mai 2 awr fydd hyd yr arholiad.

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i 40% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy asesiad di-arholiad sydd wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.

Rydym yn cydnabod yr heriau posibl o ran rheoli hyn, ac rydym yn cynnig lleihau hyn mewn sawl ffordd. Gan fod y cymhwyster yn un unedol, rydym yn cynnig caniatáu i ganolfannau ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesu drwy sicrhau bod yr unedau cyffredin ar gael i'w hasesu yn ystod blwyddyn gyntaf y cymhwyster. Bydd canolfannau'n gallu dewis pryd i sefyll yr unedau hyn, gyda'r posibilrwydd o gwblhau un, dwy neu dair uned ym mlwyddyn gyntaf y cymhwyster. Ar ben hynny, rydym yn cynnig amrywio lefelau rheolaeth ar gyfer tasgau asesu di-arholiad fel bod gan ganolfannau fwy o hyblygrwydd o ran gofynion goruchwyliaeth ar gyfer agweddau ar bob asesiad di-arholiad. Ar gyfer asesiad di-arholiad (Uned 3) siarad a gwrando a darllen ac ysgrifennu wedi'i fewnblannu, er enghraifft, rydym yn cynnig lefel isel o reolaeth dros y dasg ei hun, ac i roi'r hyblygrwydd i ddysgwyr gyflwyno eu tasgau mewn amrywiaeth o fformatau digidol er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysgu a dysgu.

Bydd y 60% sy'n weddill o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad ysgrifenedig. Mae hyd pob arholiad yn debygol o fod yn 2 awr, ac eithrio'r uned arholi ar wahân (Uned 4) o fewn y gradd unigol sy'n debygol o fod yn 1 awr 30 munud. Credwn fod hyn yn hydrin i fyfyrwyr ar lefel TGAU. Byddai arholiad o'r hyd hwn yn ein galluogi i ddatblygu asesiad dilys sy'n sicrhau y gellir ymdrin â digon o gynnwys. Drwy gael yr arholiad ar gyfer yr uned gyffredin (Uned 1) ar gael ym mhob cyfres yr haf o 2026 ymlaen, gall canolfannau drefnu addysgu'r uned hon ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs, a hefyd caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yr uned hon. Bydd yr unedau arwahanol ar gael yn ystod yr ail flwyddyn astudio; rydym yn cynnig, fel modd i gynorthwyo canolfannau sy'n addysgu grwpiau dyfarniadau cymysg i oedi o ran dilyn llwybrau amrywiol, a rhoi cyfle i ganolfannau a dysgwyr ohirio'r penderfyniad gradd unigol/dwyradd tan ddiwedd y flwyddyn gyntaf o astudio.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd wedi ymrwmo i gynnig hyblygrwydd a dewis fel y gall canolfannau ddewis testunau i'w hastudio sy'n briodol i'r cyd-destun a'r garfan. Yn yr asesiad cyffredin ar gyfer siarad a gwrando a darllen ac ysgrifennu asesiad di-arholiad (Uned 3), bydd CBAC yn rhyddhau amrywiaeth o ysgogiadau ar gyfer pob cyfres arholiadau a fydd yn cynrychioli'r 'agweddau' y dylid eu hastudio o fewn y farddoniaeth. Bydd canolfannau yn cael yr hyblygrwydd i ddewis barddoniaeth sy'n bodloni'r gofynion diffiniedig a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo, yn hytrach na gorfod astudio o restr o destunau wedi'u dewis ymlaen llaw na fydd efallai'n ennyn diddordeb eu dysgwyr. Yn yr un modd, o fewn yr uned siarad a gwrando gyffredin (Uned 2) bydd gan ganolfannau ryddid i ddewis eu testun gweledol eu hunain sy'n cysylltu'n well â'r cysyniad penodol o hunaniaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ganolfannau ddewis testunau sy'n cynrychioli eu 'cynefin' eu hunain orau, neu eu synnwyr o hunaniaeth neu sy'n cynrychioli agwedd ar/hunaniaeth wahanol o Gymru a/neu Gymreictod.

Mae hyn yn cefnogi egwyddorion Cwricwlwm i Gymru drwy roi'r rhyddid i ganolfannau gynllunio eu cwricwlwm eu hunain a sicrhau perthnasedd yr astudiaeth.

Yn yr unedau a arholir sy'n cynnwys testunau llenyddol, (Uned 1 – nofel ac Uned 6 – straeon byrion) rydym yn bwriadu cynnig rhestr benodedig o destunau (Uned 1) a blodeugerdd o destunau cyfoes (Uned 6) y gall canolfannau ddewis testun i'w astudio ohoni. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cymaroldeb a dibynadwyedd rhwng tymhorau arholiadau.

Er mwyn sicrhau dibynadwyedd yr asesiad di-arholiad, byddwn yn sicrhau y bydd pob uned yn targedu'r un pwysoliadau amcanion asesu dros amser, bydd meini prawf marcio yn cael eu datblygu a bydd athrawon yn cael pecyn cefnogi i sicrhau bod y meini prawf marcio yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau a thros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith canolfannau i ddarparu mwy o sicrwydd o ran dibynadwyedd.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys yr unedau darllen ac ysgrifennu yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo – TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg](#) Cymwysterau Cymru – ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Mae'n rhaid i **TGAU iaith a Llenyddiaeth Gymraeg**:
 - 1.1. gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed mewn lleoliadau cyfrwng Gymraeg a dwyieithog
 - 1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu yn eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
 - 1.3. cefnogi dysgu ac addysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a gafaelgar sy'n adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
 - 1.4. galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
 - 1.5. darparu gwybodaeth ystyrion, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Mae'n rhaid i **TGAU iaith a Llenyddiaeth Gymraeg**:
 - 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio ystod o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iaith a llenyddiaeth Gymraeg
 - 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrion
 - 2.3. galluogi Dysgwyr i archwilio thema drawsgwricwlaidd hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
3. Mae'n rhaid i **TGAU iaith a Llenyddiaeth Gymraeg**:
 - 3.1. gwerthfawrogi sut mae iaith yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas trwy ymgysylltu â thestunau llafar, gweledol ac ysgrifenedig o amrywiaeth o gyfnodau, lleoedd a diwylliannau
 - 3.2. darllen, gwylio a gwrando ar amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
 - 3.3. darllen, gwylio a gwrando ar amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
 - 3.4. mynegi eu hunain mewn modd eglur, cywir, rhugl a chreadigol wrth siarad ac ysgrifennu Gymraeg
 - 3.5. datblygu a chymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a defnydd o'r Gymraeg
4. Mae'n rhaid i'r cymhwyster hefyd gael ei ddylunio i hybu profiad cadarnhaol a pherthnasol o'r Gymraeg a diwylliannau Gymraeg a Chymreig.

Cynnwys y Pwnc

Mae'n rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg** fod ar gael fel cymhwyster gradd unigol a chymhwyster dwyradd.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol)

- Rhaid i'r **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol)** gynnwys:
 - 1.1. o leiaf dau destun llawn, gan gynnwys rhyddiaith ffuglen naratif a llunyddiaeth
 - 1.2. cerddi sy'n cwmpasu ystod o gyfnodau ac amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys y canu caeth
 - 1.3. detholiad o destunau ffeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amryw ddibenion
 - 1.3.1. mae'n rhaid i'r rhain gynnwys testunau di-dor a phytiog
 - 1.3.2. mae'n rhaid i'r holl destunau adlewyrchu bywyd go-iawn a mynd i'r afael â chyd-destunau a themâu sy'n berthnasol i Ddysgwyr

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd)

- Rhaid i'r **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd)** gynnwys:
 - 1.1. o leiaf tri thestun llawn, gan gynnwys rhyddiaith ffuglen naratif, llunyddiaeth, ac un testun llawn arall
 - 1.2. cerddi sy'n cwmpasu ystod eang o gyfnodau ac amrywiaeth eang o fesurau, gan gynnwys y canu caeth
 - 1.3. detholiad eang o destunau ffeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amryw ddibenion
 - 1.3.1. mae'n rhaid i'r rhain gynnwys testunau di-dor a phytiog
 - 1.3.2. mae'n rhaid i'r holl destunau adlewyrchu bywyd go-iawn a mynd i'r afael â chyd-destunau a themâu sy'n berthnasol i Ddysgwyr

Rhaid i'r gweithiau sydd yn cael eu hastudio yn **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol)** a **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd)** fod yn gyfoethog a sylweddol a chynnwys:

- 1.1. gweithiau gan awduron byw
- 1.2. gweithiau gan ystod o awduron ac o bersbectif amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder dinasyddiaeth a diwylliannau Cymraeg a Chymreig, gan gynnwys safbwyntiau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Rhaid i'r corff dyfarnu gynnig elfen o ddewis a hyblygrwydd i Ganolfannau ddewis gweithiau sydd fwyaf priodol i gwricwlwm eu Canolfan eu hunain.

Amcanion Asesu

Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir:

AA1	Deall ac ymateb i. Deall ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o destunau ysgrifenedig a llafar, gan ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau a datblygu syniadau. ii. Gwneud cymariaethau ac egluro cysylltiadau o fewn a rhwng testunau ysgrifenedig a chyfathrebu llafar, gan ddefnyddio terminoleg briodol a chefnogi barn gyda manylion priodol o'r testun. iii. Egluro sut mae iaith, strwythur a ffurf yn cyfrannu at gyflwyno gwybodaeth, syniadau a themâu mewn testunau ysgrifenedig ac ar lafar a sut mae'r rhain yn effeithio ar y darlennydd/gwylwr/gwrandäwr. iv. Deall testunau ysgrifenedig, llafar a gweledol yn eu cyd1 destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut y gall y rhain lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectifau.	50%
AA2	Mynegi a chyfathrebu i. Cyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn ddychmygus, gan ddefnyddio ffurfiau, geirfa a thechnegau i ennyn diddordeb y darlennydd/gwrandäwr. ii. Addasu cyfathrebu trwy ddewis cywair, geirfa a thechnegau sy'n briodol i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd. iii. Trefnu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ieithyddol a strwythurol i gefnogi cydlyniant a chydlyniant cyffredinol. iv. Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, â gramadeg priodol ac, mewn cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu cywir.	50%

Cynllun Asesu

- Rhaid i **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg** fod yn ddi-haen.
- Rhaid i **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg** fod yn unedol.
- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg** ateb y gofynion asesu canlynol:

- 20.1. bydd cyfanswm o 40% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad di-arholiad, sy'n cael ei osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y Ganolfan, a'i Gymedroli gan y corff dyfarnu
- 20.2. bydd asesiad di-arholiad drwy ddulliau siarad a gwranddo yn asesu sgiliau deall ac ymateb a sgiliau mynegi a chyfathrebu
 - 20.2.1. Bydd yn cyfrannu tuag at 30% o'r cymhwyster cyfan
 - 20.2.2. Bydd yn cynnwys tasgau unigol a grŵp
- 20.3. bydd asesiad di-arholiad drwy ddulliau darllen ac ysgrifennu yn asesu sgiliau deall ac ymateb a sgiliau mynegi a chyfathrebu

- 20.3.1. Bydd yn cyfrannu tuag at 10% o'r cymhwyster cyfan
- 20.4. bydd cyfanswm o 60% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad allanol, gan ddefnyddio dulliau darllen ac ysgrifennu.
 - 20.4.1. Bydd yr arholiad yn cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu.
 - 20.4.2. Rhaid i'r arholiad allanol gynnwys gweithiau sydd wedi'u hastudio a rhai sydd heb eu gweld o'r blaen (llynyddol ac anllynyddol)
- 20.5. rhaid asesu'r gweithiau a astudiwyd a amlinellir drwy ddefnyddio un o'r tri dull canlynol:
 - asesiad di-arholiad (siarad a gwrando), asesiad di-arholiad (darllen ac ysgrifennu) neu arholiad allanol. Rhaid i bob un o'r dulliau hyn asesu o leiaf un gwaith sydd wedi'i astudio
- 20.6. dylai'r gradd unigol a'r dwyradd ddarparu'r un lefel o her, ond bydd y dwyradd yn gofyn am gynnwys ehangach, gan gynnwys drwy asesu gweithiau sydd wedi'u hastudio a rhai sydd heb eu gweld o'r blaen
- 20.7. rhaid i'r dwyradd a gradd unigol gynnwys rhai unedau cyffredin. Rhaid i'r unedau hyn fod yn werth rhwng 30% a 35% o'r dwyradd a rhwng 60% a 70% o'r gradd unigol
- 20.8. rhaid i'r rheol derfynol fod o leiaf 30%, a rhaid iddi gynnwys arholiad